
## Yr Her:

Mae'n ddiwrnod Santes Dwynwen ar yr 25ain o Ionawr. Mae'r ŵyl yma yn un sydd yn arbennig i ni y Cymry. Gobeithio byddwch yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau isod yn ystod y pythefnos nesaf.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Pwy sydd yn bwysig yn eich bywyd chi?
- Sut allwch chi ddangos i rywun eich bod yn ei caru e.e helpu/dweud rhywbeth caredig/ rhoi anrheg iddynt?
- Mae diwrnod Santes Dwynwen yn ŵyl arbennig i Gymru, ydych chi'n gallu meddwl am bethau eraill sydd yn unigryw i Gymru?

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

Nid da lle gellir gwell

# Santes Dwynwen (Meithrin/Derbyn)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Adnabod llythrennau wyddor<br>• Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor<br>• Ymarfer ffurfio enw/cyfenw<br>• Darllen yn reolaidd– darllen a gwrando ar storïau Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi | • Ymarfer adnabod rhifau<br>• Ymarfer ffurfio rhifau<br>• Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl<br>• Adio a thynnu ymarferol | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ewch ati i dynnu llun o Dwynwen. Beth am addurno'r llun gyda chalonnau? Ydych chi yn gallu copio/ysgrifennu y gair Dwynwen neu beth am greu brawddegau syml e.e Dyma Dwynwen. Mae Dwynwen yn garedig. | Beth am agor siop cardiau Santes Dwynwen yn y ty? Faint bydd y cardiau yn costio? Defnyddiwch darnau arian gwahanol i dalu am y cardiau. Beth am ddosbarthu'r darnau arian mewn i setiau? Sawl 1c/2g/5c ayyb sydd gyda chi? | Mae'n bwysig iawn i gadw ein calon yn iach. Un ffordd o wneud hynny yw digon o ymarfer corff. Meddyliwch am wahanol ffyrdd o symud- beth am fynd am dro gyda'r teulu neu rhedeg o amgylch yr ardd/neidio/hercian. Ydych chi'n gallu sylwi ar newidiadau yng nghuriad eich calon? Ydy e'n curo'n gyflymach? |
| Allwch chi enwi/tynnu llun/creu rhestr o bobl sydd yn bwysig i chi. Trafodwch gydag aelod o'r teulu pam mae'n nhw'n bwysig i chi. Meddyliwch am bethau caredig i ddweud wrth y bobl yma. | Gyda chymorth oedolyn, ydych chi'n gallu ysgrifennu rhifau hyd at 5/10/20/100 ar galonnau? Beth am chwarae gem gyda'r calonnau/eu trefnu/cuddio rhif a dyfalu pa un sydd ar goll/chwilio am rif 1 yn fwy ac 1 yn llai. | Beth am fynd ati i greu Dracht Fyrlymus Santes Dwywen gydag oedolyn. Dilynwch y cyfarwyddiadau gyda chymorth. Beth am recordio'r arbrawf a'i lwytho i Hwb i'ch athrawon cael gweld? |
| Mae calon yn dechrau gyda'r lythyren c. Faint o eiriau allwch chi feddwl am sydd yn dechrau gyda'r lythyren c? Tynnwch lun rhai o'r pethau yma ac ysgrifennwch/copiwch y gair i gyd-fynd a'r llun. | Ydych chi'n gallu lliwio/peintio eich calonnau gan ddefnyddio gymaint o liwiau gwahanol a phosib? Beth am greu parymau syth a phatrymau crwm arnynt? Ydych chi'n gallu creu patrwm sy'n gymesur? | Gydag oedolyn, ewch ati i greu bisgedi siâp calon/ cacennau ac eisin pinc/coch. Ewch ati i addurno'r bisgedi ac yna eu mwynhau gyda'r teulu. Cofiwch eich bod yn rhannu eich lluniau gyda ni ar HWB/TWITTER |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Calendr Caredigrwydd<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround - darllen y newyddion diweddaraf<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman — 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU — gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Orielodl - fideo cam wrth gam<br>Llifo'n Llawen - Yoga<br>Just Dance - 'Youtube'<br>Amser Stori Atebol - 'You Tube<br>Amser stori – Llyfrgelloedd Sir Gâr | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube<br>Llyfrau Coeden Darllen Rydychen -HWB |